


# Uwch Weithiwr Cymdeithasol

## Gwasanaethau Cymdeithasol Plant - Tîm Ymyriadau Teuluol

**Parhaol - 37 awr G07**

**G07 - £40,221 - £43,421**

**Lleoliad: Swyddfeydd y Sir, Y Fflint, Sir y Fflint**

Ydych chi'n weithiwr cymdeithasol profiadol gydag angerdd am helpu plant? Ydych chi'n ffynnu mewn amgylchedd tîm cefnogol a chyfeillgar? Os felly, rydym eisiau i chi ymuno â'n tîm yng Nghyngor Sir y Fflint.

Ar hyn o bryd rydym yn chwilio am Uwch Weithiwr Cymdeithasoll i ymuno â'n Tîm Ymyriadau Teuluol. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus radd mewn gwaith cymdeithasol ac Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus cyfatebol, gydag o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.

Fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol, byddwch yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, myfyrwyr gwaith cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol. Byddwch yn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau ar lefel mwy cymhleth, gan gynnwys asesu a rheoli risgiau'n briodol, a goruchwylio gwaith achos ar gyfer aelodau eraill o'r tîm.

Yng Nghyngor Sir y Fflint rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn dîm cefnogol a chyfeillgar, gan ddarparu amgylchedd gwaith cadarnhaol sy'n annog twf a datblygiad proffesiynol. Byddwch yn ymuno â thîm o weithwyr proffesiynol angerddol sy'n ymroddedig i helpu plant mewn angen.

Fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer y Tîm Ymyriadau Teuluol gyda Chyngor Sir y Fflint, byddwch yn mwynhau pecynnau cyflog cystadleuol, hawl i wyliau hael, a mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad parhaus. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i weithio gyda thîm sy'n ymrwymo i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl i'r plant a'r teuluoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Felly, os ydych chi'n barod i fynd â'ch gyrfa gwaith cymdeithasol i'r lefel nesaf, ac eisiau gweithio mewn amgylchedd tîm cefnogol a chyfeillgar, ymgeisiwch rŵan!

Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael sgwrs anffurfiol, cysylltwch â: Beckie Thomas – Rheolwr Tîm – Beckie.Thomas@flintshire.gov.uk Suzanne Johnston – Rheolwr Gwasanaeth – Suzanne.Johnston@flintshire.gov.uk

Bydd trefniadau gweithio'n rhan amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio'n hyblyg yn cael eu hystyried. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai presennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg